Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil mewn Syntheseiddio Tystiolaeth**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Canolfan Economeg Iechyd Abertawe** |
| **Cyflog:** | **Gradd 7: £32,982 i £37,099 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS** |
| **Oriau gwaith:** | **Swydd amser llawn yw hon, 35 awr yr wythnos.** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Swydd am gyfnod penodol yw hon tan 31 Mawrth 2025.** |
| **Lleoliad:** | **Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton.** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau** | Mae cyfle cyffrous wedi codi i fyfyriwr graddedig dawnus yn y gwyddorau meddygol, mewn economeg neu ddisgyblaeth berthynol ddatblygu ei sgiliau syntheseiddio tystiolaeth i lywio prosesau penderfynu. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â thîm amlddisgyblaethol bach â ffocws, gan gefnogi uwch-ymchwilwyr ar amrywiaeth o brosiectau. Bydd ffocws penodol ar bobl sy'n byw gyda chanser a/neu sydd ag anghenion iechyd cymhleth eraill i gynllunio a datblygu strategaethau adolygu tystiolaeth, cynnal ymchwiliadau llenyddiaeth a llunio deunyddiau clir i gyfleu'r canlyniadau er mwyn llywio ymchwil a phenderfynu ym maes economeg iechyd. Byddwch yn cydweithio â'r tîm ym Mhrifysgol Abertawe ac â grwpiau ymchwil mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i greu allbynnau o safon sy'n cael effaith yn y byd go iawn. Fel rhan o ddisgwyliadau cyffredinol y swydd hon, byddwch yn cefnogi cyhoeddiadau mewn cyfnodolion rhyngwladol o ansawdd uchel. Bydd angen sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog arnoch gan y byddwch yn gweithio gyda phobl o gefndiroedd a sefydliadau amrywiol, gan gynnwys cydweithredwyr sy'n gleifion, yn ofalwyr ac yn aelodau'r cyhoedd. Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n awyddus i wneud yn fawr o'r cyfle hwn yng Nghanolfan Economeg Iechyd Abertawe, sy'n ganolfan ragoriaeth sefydledig a chydnabyddedig ym maes economeg iechyd yn y DU. Byddwch yn rhan o Economeg Iechyd a Gofal Cymru sy'n grŵp Cymru gyfan o arbenigedd economeg iechyd a gofal a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Disgwylir i chi gyfranogi'n llawn yn ei weithgareddau, i hyrwyddo ei waith a chyfrannu at gymuned fywiog o ymchwilwyr economeg iechyd ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor. Bydd gennych gyfle i ddatblygu eich profiad a'ch proffil mewn ymchwil tystiolaeth gofal iechyd. Bydd hyn yn cynnwys ymgymryd â hyfforddiant addas, cynllun datblygu personol a nodi cyfleoedd i ddysgu'n barhaus.<br><br>Prif ddyletswyddau:<br>1. Dan arweiniad a mentora uwch-gydweithiwr, cyfrannu'n rhagweithiol at ddylunio, paratoi a darparu strategaethau adolygu tystiolaeth i gefnogi gwaith gwerthuso economeg iechyd ar gyfer treialon ac astudiaethau byd go iawn.<br>2. Ymgymryd â chwiliadau llenyddiaeth a syntheseiddio tystiolaeth ar gyfer prosiectau ymchwil.<br>3. Llunio deunydd clir i gyfleu'r canlyniadau i gynulleidfaoedd amrywiol. |
| | 4. Cyfrannu'n rhagweithiol at syntheseiddio tystiolaeth ac ymgymryd â'r gwaith eich hun. Mae hyn yn cynnwys: nodi cysyniadau allweddol ar gyfer cwestiynau ymchwil a rhoi fframwaith addas ar waith ar gyfer y strategaeth chwilio; nodi geiriau a thermau allweddol; dethol cronfeydd data addas ar gyfer y chwilio; dewis fframweithiau addas i werthuso'r llenyddiaeth yn feirniadol a'u rhoi ar waith; a chyflwyno canlyniadau i gefnogi gwerthusiad economaidd.<br>5. Llunio adroddiadau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r adolygiad llenyddiaeth, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>6. Bod yn hunangymhellol a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen. |

| | |
|---|---|
| | 7. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym maes diwydiant/masnach, mewn sefydliadau cyhoeddus, ysbytai ac yn y byd academaidd.<br>8. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>*9.* Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes, o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiad ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>10. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun a darparu tystiolaeth ohono, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>11. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>12. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 13. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>14. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>15. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>16. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Cymhwyster ôl-raddedig yn y gwyddorau meddygol, mewn economeg neu ddisgyblaeth berthynol.<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i gynllunio a chynnal adolygiadau llenyddiaeth/syntheseiddio tystiolaeth yn unol ag amcanion prosiect.<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i werthuso llenyddiaeth yn feirniadol gan ddefnyddio offeryn cyhoeddedig.<br>4. Tystiolaeth o'r gallu i lunio adroddiadau ar gyfer prosiect ymchwil a chyfrannu at y gwaith hwn.<br>5. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>6. Tystiolaeth o wybodaeth ganolradd/uwch o Endnote neu feddalwedd rheoli cyfeiriadau debyg i gefnogi adolygiad llenyddiaeth.<br>7. Tystiolaeth o'r gallu i ddefnyddio sgiliau rhyngbersonol mewn amgylchedd tîm a gallu profedig i weithio mewn amgylchedd cydweithredol ac yn annibynnol dan eich menter eich hun.<br>8. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>9. Profiad o gynnal adolygiad llenyddiaeth i gefnogi gwerthusiad economaidd ym maes gofal iechyd.<br>10. Profiad o ysgrifennu canlyniadau adolygiad llenyddiaeth i'w cyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid.<br>11. Ymrwymiad i gymryd rhan yn rheolaidd yn nigwyddiadau a chyfarfodydd ymchwil y Gyfadran a'r Brifysgol fel ymchwilydd gyrfa gynnar.<br>12. Ymrwymiad i deithio, yn ôl yr angen, i gefnogi Canolfan Economeg Iechyd Abertawe ac Economeg Iechyd a Gofal Cymru ar draws Cymru a'r DU.<br>13. Dealltwriaeth o'r nodau a'r gweithgareddau mae Economeg Iechyd a Gofal Cymru yn ymgymryd â nhw wrth ddarparu rhagoriaeth ymchwil economeg iechyd i Gymru. |

| | |
|---|---|
| **Lefel y Gymraeg** | Level 1 – ‘a little’ - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we’r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Katherine Cullen, Uwch-economydd Iechyd, SCHE, Katherine.Cullen@abertawe.ac.uk |